

Rydyn ni'n chwilio am ymddiriedolwyr newydd!

Mae Colegau Cymru yn elusen addysg ôl-16. Credwn fod gan bob dysgwr yr hawl i addysg o'r radd flaenaf, a ddarperir mewn lleoliad diogel, amrywiol a chynhwysol ac o fewn sector addysg bellach sy'n cefnogi'r gymuned ehangach, cyflogwyr a'r economi.

Rydym yn falch o fod yn tyfu ac yn arallgyfeirio ein Bwrdd Ymddiriedolwyr. Mae ymddiriedolwyr yn ein helpu i gyfrif am ddefnyddio tanysgrifiadau elusennol ein haelodau a'r grantiau a dderbyniwn gan amrywiaeth o gyllidwyr allanol fel Llywodraeth Cymru a'r DU.

Mae'r swyddi gwag presennol yn ceisio pobl i gynrychioli budd ehangach y cyhoedd mewn addysg ôl-16 ochr yn ochr â barn yr aelodau a'u cyrff llywodraethu.

Ar hyn o bryd rydym am recriwtio dau aelod.

Am beth rydym ni'n chwilio amdano?

Mae gennym ddwy swydd wag i ymuno â grŵp llawn cymhellant sydd eisoes yn gweithio'n galed i gael effaith, cefnogi buddiannau ein colegau sy'n aelodau a hyrwyddo budd ehangach addysg ôl-16 a dysgu gydol oes.

Rydym yn awyddus i barhau i adeiladu ar y gwaith da hwn ac rydym am ehangu ystod arbenigedd a phrofiad Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a chynyddu amrywiaeth meddwl a her adeiladol.

Os ydych chi'n ymddiriedolwr, neu'n gyn-ymddiriedolwr a/neu'n hyrwyddwr llywodraethu ac arweinyddiaeth dda yn y sector cyhoeddus, preifat neu wirfoddol, hoffem glywed gennych! Ond rydym yr un mor awyddus i glywed gan ymgeiswyr a allai fod â phrofiad diweddar fel dysgwr addysg bellach mewn coleg neu fel prentis.

Sgiliau Allweddol

- Mae gennych ddiddordeb mewn addysg bellach, dysgu gydol oes a phrentisiaethau a helpu i'w gwneud y rhai mwyaf effeithiol y gallant fod.
- Rydych yn adnabod y sector elusennol, fel cadeirydd, ymddiriedolwr, gwirfoddolwr neu aelod o staff.
- Mae gennych ddiddordeb mewn gwella llywodraethu ac arweinyddiaeth ac yn credu y gall arweinyddiaeth dda wneud gwahaniaeth mawr.
- Rydych chi'n dal i ddysgu ac yn awyddus i ddatblygu trwy brofiadau newydd.
- Rydych yn mwynhau gweithio fel rhan o dîm, yn hyderus yn eich barn eich hun ac yn gallu bod yn rhan o wneud penderfyniadau ar y cyd.
- Rydych chi'n meddwl agored, yn ddemocrataidd, yn dadlau'n ddwfn ac yn adeiladol, ac rydych chi'n canolbwyntio ar atebion.
- Rydych yn awyddus i ddod â'ch sgiliau proffesiynol a'ch profiadau bywyd a'ch defnydd ohonynt, ac rydych yn barod i ymddiddori ym mhob agwedd ar ein gwaith.

Profiad

Fel ymgeisydd llwyddiannus, efallai y bydd gennych brofiad strategol a/neu weithredol mewn meysydd fel:

- Datblygu Busnes
- Marchnata
- TG a Marchnata Digidol a'r Cyfryngau
- Cyllid
- Rheoli Adnoddau Dynol

Amserlen cyfarfodydd

Ar hyn o bryd mae'r Bwrdd yn cyfarfod yn rhithiol dair gwaith y flwyddyn. Mae pob cyfarfod yn para tua dwy awr. Os a phryd y gofynnir am gyfarfodydd wyneb yn wyneb, cynhelir rhain yn swyddfa ColegauCymru.

Telerau'r Swydd

Bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn gwasanaethu am gyfnod o dair blynedd, gyda lle i adnewyddu am dair blynedd arall. Mae hon yn rôl ddi-dâl, ond darperir costau teithio yn ôl y gofyn a bydd unrhyw gostau eraill sy'n gysylltiedig â mynychu cyfarfodydd neu ddigwyddiadau yn dod o dan yr elusen.

Sut i Wneud Cais

Anfonwch eich ffurflen gais at y Rheolwr Swyddfa a Llywodraethiant, Rachel Rimanti. Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os hoffech drafod y cyfle hwn ymhellach, cysylltwch a David Hagendyk, Prif Weithredwr ColegauCymru. Gellir cysylltu David drwy Rachel Rimanti.

Dylid e-bostio ceisiadau i: Rachel.Rimanti@ColegauCymru.ac.uk

Dyddiad Cau: Dydd Gwener 10 Mai 2024, 5.00yh

Dyddiad Cyfweiliad: 22 Mai 2024

Gwybodaeth Bellach

I gael rhagor o wybodaeth am y gwaith y mae ColegauCymru yn ei wneud, ewch i'n [gwefan](#) a dilynwch ni ar [Twitter](#)